

Cyngor Sir Y Fflint

Safonau Gofynnol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth

Categori A2 - Tai Amlfeddiannaeth Math Eiddo un Ystafell (Ystafelloedd Unigol yn cael eu Rhentu) - Safonau Perthnasol

Darllenwch y safonau hyn ochr yn ochr â'r nodiadau cyffredinol a ddarparwyd.

Mae 'Tai Amlfeddiannaeth Math Eiddo Un Ystafell' yn golygu, i ddibenion y safonau hyn, Tai Amlfeddiannaeth sy'n cynnwys nifer o ystafelloedd unigol sy'n cael eu rhentu nad ydynt yn hunangynhwysol lle y darperir cegin sy'n cael ei rhannu. Nid oes modd coginio yn yr ystafelloedd gosod unigol. Efallai y bydd ystafell fyw gymunedol yn cael ei darparu. Fel arfer mae tenantiaethau unigol yn hytrach nag un denantiaeth ar y cyd. Bydd clo ar ddrysau'r ystafelloedd gwely fel arfer. I ddechrau, efallai y bydd ychydig iawn neu dim rhyngweithio cymdeithasol ymysg y preswylwyr ond efallai y gall hyn newid dros amser.

Mewn rhai achosion efallai bydd y preswylwyr wedi derbyn y denantiaeth fel grŵp ar yr un pryd ond wedi derbyn yr eiddo gydag ychydig neu ddim dewis o lle yr oeddent yn mynd i fyw ac efallai nad oeddent yn gysylltiedig a'i gilydd yn flaenorol.

Yn aml dyma'r achos gyda grwpiau o ymofynwyr noddfa neu weithwyr sydd wedi mewnfudo lle bydd eu llety'n gysylltiedig â'u cyflogaeth.

Wrth benderfynu a yw eiddo yn Dŷ Amlfeddiannaeth math Un Ystafell, bydd y ffactorau canlynol yn cael eu hystyried a bydd safbwynt cytbwys o'r sefyllfa bresennol, sef:

- 1) I ba raddau, neu fel arall, y bydd pob preswlydd yn rhannu cyfleusterau megis ystafelloedd bwyta, ceginau, ystafelloedd ymolchi a rhannau eraill o'r eiddo, ac os yw rhannau o'r eiddo yn gyraeddadwy i'r holl breswylwyr;
- 2) Faint o gydweithredu a chyfathrebu cymdeithasol sydd rhwng y preswylwyr;
- 3) Telerau ac amodau sydd wedi'u cynnwys yn y cytundeb (au) tenantiaeth a'r modd yr hysbysebwyd y llety;
- 4) Trefniadau talu am rent, biliau gwasanaeth, bwyd ac eitemau eraill o'r fath;
- 5) I ba raddau, neu fel arall, y mae'r preswylwyr yn perthyn i'w gilydd;
- 6) Nodweddion sy'n bresennol yn yr eiddo, megis cloeon ar unedau unigol o'r llety ac i ba raddau y mae'r cyfleusterau'n cael eu rhannu;

Y Safonau

1. Safon Gofodau

| Ystafell | Nifer y Preswylwyr | Isafswm (Argymhellir) |
|---|---------------------------|---|
| Ystafell wely lle y darperir ystafell fyw ar wahân. | 1 | 6.5 m ² |
| | 2 | 11 m ² |
| Ystafell wely lle na ddarperir ystafell fyw ar wahân. | 1 | 10 m ² |
| | 2 | 15 m ² |
| Ystafelloedd Byw | 1 – 5 | 11 m ² |
| | 6 neu fwy | Fel ar gyfer 5 unigolyn a 1.5m² ar gyfer pob unigolyn |

2. Safonau Gwresogi

| Gofynion Gwresogi Gofod | |
|-------------------------|---|
| 1. | <ul style="list-style-type: none">• Mae'n rhaid gosod a chynnal a chadw gwresogyddion yn ddiogel ac yn gywir ac mae'n rhaid iddynt fod yn briodol ar gyfer y dyluniad, gosodiad a'r adeilad, er mwyn gallu cynhesu'r eiddo cyfan yn briodol gan declyn sefydlog.• Mae 'digonol' yn golygu bod yn rhaid sicrhau fod gwresogi ar gael i'r holl denantiaid gydol yr amser, os oes angen. Os yw gwresogi gofod yn cael ei reoli'n ganolog, mae'n rhaid darparu rheolyddion i ganiatáu i'r preswylwyr reoli tymheredd eu huned hwy o'r llety.• Mae'n rhaid i'r gwresogyddion allu cynnal tymheredd ystafell o 21°C pan fydd y tymheredd tu allan yn -1°C ac mae'n rhaid eu darparu ymhob ystafell gyfanheddol ac ystafell ymolchi. |
| 2. | <p>Pan fydd cost gwresogi'r Tŷ Amlfeddiannaeth yn gyfrifoldeb i'r tenantiaid yna mae'n rhaid iddynt fod yn fforddiadwy. Mathau derbyniol o wresogi sylfaenol yw:</p> <ul style="list-style-type: none">• Gwres canolog nwy neu olew (dewis a ffeirir) gyda rheolyddion ar gyfer amser a rhaglennu tymheredd;• Gwresogyddion stôr trydan gyda gwyntyll yn cael ei redeg gan bris allfrig (Economi 7 neu Economi 10) gyda rheolyddion pris awtomatig a rheolyddion allbwn;• offer nwy sefydlog ar gyfer gwresogi gofod cynradd wedi cysylltu â ffliw addas ac allfa derfynol.• Bydd mathau eraill o wresogi'n cael eu hystyried hefyd (ar yr amod nad ydynt wedi'u gwahardd fel y nodir yn 6 isod) |
| 3. | <ul style="list-style-type: none">• <u>Ystafelloedd Ymolchi yn unig:</u> Gwresogyddion gwyntyll trydanol, gwresogyddion pelydrol ar y wal neu wresogyddion panel (gyda rheolyddion amser lleol a thymheredd) yn dderbyniol os ydynt wedi'u dylunio i weithredu mewn amgylchedd llaith. |
| 4. | <ul style="list-style-type: none">• Mae'n rhaid i'r preswylwyr allu rheoli'r gwres sylfaenol ym mhob ystafell.• Pan nad yw'r gwres sylfaenol yn cael ei reoli gan y tenantiaid, mae'n rhaid gosod offer gwresogi sefydlog eilradd ymhob ystafell ac mae'n rhaid iddynt fod yn unol â gofynion Canllaw Teclyn Gwasanaeth Adeilad Domestig. |
| 5. | <p>Pan fydd cost gwresogi'r Tŷ Amlfeddiannaeth yn gyfrifoldeb i'r landlord efallai y bydd mathau eraill o wresogyddion yn dderbyniol ar yr amod fod y gwresogyddion yn bodloni gofynion pwynt 1 uchod, a bod y landlord yn gallu darparu datganiad ysgrifenedig yn cadarnhau'r trefniant uchod ac nad oes amhariad ar y gwres. Gyda hynny, mae'n rhaid darparu tystiolaeth o daliad e.e. bil gwasanaeth diweddar ar gyfer y tanwydd perthnasol, pan ofynnir amdano gan y Cyngor.</p> |
| 6. | <p><u>Nid yw'r</u> canlynol yn dderbyniol fel mathau o wresogyddion (heblaw lle y nodir yn wahanol):</p> <ul style="list-style-type: none">• Gwresogyddion paraffin a gwresogyddion LPG• Gwresogyddion cludadwy o unrhyw fath• Gwresogyddion tanwydd solet• Gwresogyddion gwyntyll a Gwresogyddion Bar Pelydrol (heblaw am mewn Ystafelloedd Ymolchi fel y nodir ym Mhwynt 3 uchod) |

3. Safonau Cyfleusterau Ymolchi

| Cyfleusterau Ystafell Ymolchi mewn perthynas â nifer y preswylwyr sy'n rhannu cyfleusterau | |
|---|--|
| Hyd at 4 preswlyydd | <ul style="list-style-type: none"> • 1 ystafell ymolchi llawn: Yn cynnwys baddon neu gawod, sinc ymolchi a thoiled. |
| 5 preswlyydd | <ul style="list-style-type: none"> • 1 ystafell ymolchi: Yn cynnwys baddon neu gawod gyda sinc ymolchi (a gall gynnwys thoiled). <p>A</p> <ul style="list-style-type: none"> • 1 thoiled ar wahân gyda sinc ymolchi NEU ail ystafell ymolchi sy'n cynnwys thoiled a sinc ymolchi). |
| 6-10 preswlyydd | <ul style="list-style-type: none"> • 2 ystafell ymolchi yn cynnwys baddon neu gawod gyda sinc ymolchi (rhaid i un ohonynt gynnwys thoiled). <p>A</p> <ul style="list-style-type: none"> • 1 thoiled ar wahân gyda sinc ymolchi. |
| 11-15 preswlyydd | <ul style="list-style-type: none"> • 3 ystafell ymolchi: Pob un yn cynnwys baddon neu gawod a sinc ymolchi; <p>A</p> <ul style="list-style-type: none"> • 3 thoiled ar wahân gyda sinc ymolchi (ond gellir lleoli dau doiled yn y ddwy ystafell ymolchi) |

Tabl Crynodeb Cyfleusterau Ystafell Ymolchi:

| Nifer Preswylwyr sy'n rhannu'r cyfleusterau | Trefniadau Derbyniol | | | | | | |
|---|------------------------------------|---|---|---|---|--|--|
| | 1 ystafell ymolchi gydag 1 thoiled | 1 ystafell ymolchi (gyda neu heb doiled) a 1 thoiled ar wahân | 2 ystafell ymolchi (1 gydag 1 thoiled) | 2 ystafell ymolchi gyda thoiled yn y ddwy | 2 ystafell ymolchi (un gyda thoiled) a thoiled ar wahân | 2 ystafell ymolchi a 2 doiled ar wahân | 3 ystafell ymolchi (2 yn cynnwys thoiled) a thoiled ar wahân |
| 3 neu 4 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 5 | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 6 | | | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| 7 | | | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| 8 | | | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| 9 | | | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| 10 | | | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| 11 i 15 | | | | | | | ✓ |

| Safonau Cyfleusterau Ymolchi | |
|---|---|
| Gofynion ar gyfer cyfleusterau cyfleustra a chyfleusterau ymolchi | <ul style="list-style-type: none"> • Mae'n rhaid i'r holl doiledau gael arwynebau sy'n llyfn ac anhydraidd ac y gellir eu glanhau'n hawdd. • Dylai'r dyluniad y toiled sicrhau fod sêl dŵr o ddyfnder digonol i atal aer drewllyd rhag gadael y system. • Mae'n rhaid gosod y toiledau'n ddiogel ac yn gallu cynnal pwysau'r defnyddwyr. • Mae'n rhaid gosod sedd cylch ar golfach a gorchudd anhydraidd. Mae'n rhaid i'r ddau fod yn wastad oddi tanynt. • Dylai'r lifer sy'n gweithredu'r system fflysio fod yn anhydraidd ac yn ddeunydd sy'n hawdd ei lanhau. • Dylai pob ystafell sy'n cynnwys toiled gynnwys sinc ymolchi gyda chyflenwad cyson o ddŵr poeth ac oer. |
| Gofynion Ystafelloedd Ymolchi | <ul style="list-style-type: none"> • Mae'n rhaid i bob ystafell ymolchi gynnwys baddon gydag isafswm dimensiynau o 1700mm x 760mm neu gawod gydag isafswm dimensiynau o 800mm x 800mm. • Mae'n rhaid darparu baddonau a chawodydd gyda chyflenwad cyson o ddŵr poeth ac oer. • Dylai'r sinc ymolchi ddiwallu'r isafswm dimensiynau a argymhellir o 560mm x 430mm. • Mae'n rhaid cysylltu'r baddonau, cawodydd a'r sinc ymolchi gyda system ddraenio'n briodol drwy allfa gwastraff. • Ni fydd cawod ddwbl yn cyfri fel dwy gawod ar wahân. |
| Awyru | <ul style="list-style-type: none"> • Mae'n rhaid awyru ystafelloedd ymolchi a chyfleusterau glanweithiol yn briodol ac addas. Gallai hyn fod yn ffenestr y gellir ei hagog o faint addas neu awyru mecanyddol os nad oes ffenestr. Mae'n rhaid darparu awyru yn unol â Dogfen F Gymeradwy y Rheoliadau Adeiladu. |
| Gofynion Cyffredinol | <ul style="list-style-type: none"> • Pan ddarperir ystafell ymolchi mewn tŷ sy'n debygol o gynnwys plant o dan 5, yna argymhellir fod baddon yn cael ei ddarparu. • Mae'n rhaid cael cefnfwydd teils dau gwrs ar gyfer baddonau a sinc ymolchi. • Mae'n rhaid cael amgylchyn anhydraidd ar gyfer cawodydd – naill ai cuddygl neu waliau teils a sgrin. • Mae'n rhaid i arwyneb waliau fod yn llyfn ac anhydraidd ac yn hawdd eu glanhau. • Mae'n rhaid i'r lloriau fod yn rhai nad ydynt yn llithrig. • Mae'n rhaid gallu cloi drws i ystafell toiled neu ystafell ymolchi o'r tu fewn. • Mae'n rhaid darparu ystafelloedd ymolchi a chyfleusterau toiled ddim mwy na 2 lawr o bellter oddi wrth unrhyw ddefnyddwyr arfaethedig ac yn gyraeddadwy o ardal gyffredin. |

4. Safonau Cegin

| Ceginau – Niferoedd a Mesuriadau | | | | | |
|---|--|---|----------------|---------------------|----------------------------|
| Nifer y preswylwyr sy'n rhannu'r cyfleusterau | Isafswm arwynebedd y llawr (m ²) | Nifer y sincipiau a/neu beiriant golchi llestri | Nifer y poptai | Nifer y microdonnau | Wyneb gweithio (m llinol) |
| Hyd at 3 | 5 m ² | 1 sinc | 1 | 1 | 2 |
| 4 | 6 m ² | 1 sinc | 1 | 1 | 2 |
| 5 | 7 m ² | 1 sinc | 1 | 1 | 2 |
| 6 | 9 m ² | 1 sinc | 1 | 1 | 2 |
| 7 – 10 | Mae cegin ychwanegol yn ddymunol. Bydd y gofynion penodol yn dibynnu ar gyfanswm nifer y preswylwyr. | | | | |
| 7 | 9 m ² | 2 sinc NEU 1 sinc + 1 peiriant golchi llestri | 2 | 1 | 2.5 |
| 8 | 10 m ² | 2 sinc NEU 1 sinc + 1 peiriant golchi llestri | 2 | 1 | 3 |
| 9 | 11 m ² | 2 sinc NEU 1 sinc + 1 peiriant golchi llestri | 2 | 1 | 3.5 |
| 10 | 12 m ² | 2 sinc NEU 1 sinc + 1 peiriant golchi llestri | 2 | 1 | 4 |
| 11 -15 | Mae'n rhaid darparu cegin ychwanegol. Bydd y gofynion yr un fath ar gyfer y rhai rhwng 3 a 5 preswilydd, gan ddibynnu ar nifer y preswylwyr. | | | | |
| Mae'r uchod yn isafswm safonau gofod yn seiliedig ar y siâp a'r gosodiad gorau posibl. Yn ymarferol, efallai y byddai angen cael gofod mwy er mwyn sicrhau fod digon o ofod i gynnwys yr holl gyfleusterau sydd eu hangen a darparu ardal i symud sy'n caniatáu defnydd diogel o'r cegin ar gyfer nifer y defnyddwyr. | | | | | |

| Cyfleusterau a Safonau Cegin | Gofynion |
|---------------------------------------|--|
| Popty | <ul style="list-style-type: none"> • Popty nwy neu drydan gyda 4 llosgydd/ hob, popty a gril. • Mae'n rhaid lleoli'r popty fel bod y llosgydd/hob ar lefel uchder y wyneb gweithio yn ei ymyl. • Mae'n rhaid gosod y popty yn ddiogel yn yr ystafell fel nad ydynt yn cyfaddawdu dianc mewn tân yn ymwneud â'r popty h.y. ni ddylid eu gosod ger yr allanfa. • Ni ddylid gosod y popty yn union ger y ffenestri y gellir eu hagor. |
| Microdonau | <ul style="list-style-type: none"> • Isafswm o 17 litr o gynhwysedd |
| Sinciau | <ul style="list-style-type: none"> • Gyda chyflenwad parhaol o ddŵr poeth ac oer a bwrdd diferu, a gyda chefnfwrdd digonol (300mm) |
| Socedi Trydan | <ul style="list-style-type: none"> • Isafswm gofynion yw 3 socedi dwbl yn benodol ar gyfer ardal y gegin mewn lleoliadau addas mewn perthynas â'r wyneb gweithio. • Mae'n rhaid darparu socedi ychwanegol ar gyfer teclynnau mawr megis popty, oergell, rhewgell, peiriant golchi neu beiriant golchi llestri ayyb. |
| Wyneb gweithio | <ul style="list-style-type: none"> • 600 mm o ddyfnder, lle y dylid gosod 400mm o led llinol wedi'i leoli ger y popty. |
| Storio Bwyd | <ul style="list-style-type: none"> • Cwpwrdd storio bwyd ar y llawr o 500mm o led a dyfnder ac uchder safonol neu gwpwrdd storio bwyd ar y wal o 1000mm o led a dyfnder safonol ar gyfer pob preswlydd (tua 200 litr). • Mae'n dderbyniol darparu storfeydd bwyd yn ystafelloedd unigol y preswylwyr. • Nid yw'r gofod o dan y sinc yn cael ei gyfrif. |
| Oergell/ Rhewgell | <ul style="list-style-type: none"> • 0.04 metr ciwb (40 litr) cyfuniad o ofod storio bwyd mewn rhewgell ac oergell ar gyfer pob preswlydd (fel arfer byddai hyn yn golygu un silff yn yr oergell ac un silff yn y rhewgell, ar gyfer pob preswlydd). • Mae'n dderbyniol darparu storfeydd bwyd yn ystafelloedd unigol y preswylwyr. |
| Awyru | <ul style="list-style-type: none"> • Mae'n rhaid awyru'r holl geginau'n briodol ac yn addas gyda gwyntyll echdynnu wedi'i osod ac yn weithredol yn unol â Dogfen F Gymeradwy y Rheoliadau Adeiladu. • Dylai gwyntyll echdynnu dros y popty ddarparu isafswm cyfradd echdynnu o 30 litr/eiliad. Os yw'r gwyntyll echdynnu wedi'i leoli rywle arall yn yr ystafell, yr isafswm o gyfradd gwyntyllu yw 60 litr/eiliad. |
| Gorchudd llawr | <ul style="list-style-type: none"> • Mae'n rhaid darparu gorchudd llawr nad yw'n llithrig y gellir ei lanhau'n hawdd ar lawr y gegin. |
| Gwaredu Gwastraff ac Ailgylchu | <ul style="list-style-type: none"> • Mae'n rhaid darparu nifer digonol o finiau ar gyfer storio gwastraff a deunyddiau ailgylchu wrth aros i'w casglu tu fewn a thu allan. • Llawr caled addas gyda mynediad addas i lanhau'r ardal a thynnu'r cynhwysyddion a lle bo'n ymarferol tu cefn i'r eiddo. |

5. Diogelwch Tân

Mae diogelwch tân Tai Amlfeddiannaeth wedi'u cynnwys yn Neddf Tai 2004 ond hefyd yng Ngorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 sy'n rhoi pwerau i Awdurdodau Tân ac Achub i orfodi diogelwch tân yn ardaloedd cymunedol mathau penodol o Dai Amlfeddiannaeth. Yn ymarferol mae protocol yn bodoli sy'n golygu fod awdurdod lleol yn derbyn cyfrifoldeb o orfodi yn dilyn ymgynghori fel bo'r angen gyda'r awdurdod tân. O dan y ddeddfwriaeth hon mae'n rhaid i'r unigolyn â chyfrifoldeb gynnal asesiad risg diogelwch tân a gweithredu a chynnal cynllun rheoli tân. Mae gwybodaeth bellach ar yr hyn sydd angen ei wneud wrth gynnal asesiad risg ar gael o wefan <http://www.communities.gov.uk/fire/firesafety/firesafetylaw/>

Cyhoeddwyd y Canllawiau Cenedlaethol ar ddiogelwch tân mewn anheddau ym mis Gorffennaf 2008 gan LACORS (Rheoleiddwyr Gwasanaethau Rheoleiddio Awdurdod Lleol) o'r enw 'Guidance on Fire Safety for Certain Types of Existing Housing'. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys canllawiau ar gyfer landlordiaid ar sut i sicrhau diogelwch tân digonol ar gyfer mathau penodol o lety preswyl. Mae'n cynnig cyngor ymarferol ar asesiad risg tân ac yn cynnwys astudiaethau achos gyda datrysiadau diogelwch tân a awgrymir.

Gellir lawr lwytho canllawiau cenedlaethol am ddim o wefan http://www.cieh.org/policy/fire_safety_existing_housing.html.

Mae gofynion diogelwch tân wedi'u crynhoi yn y tablau sydd i ddilyn: Noder fod y gofynion hyn yn seiliedig ar yr eiddo a'r preswylwyr cyfredol sy'n '**risg arferol**' fel y diffinnir ym mhwynt 9.1 canllaw LACORS. Pan fydd risg uwch yn bodoli e.e. oherwydd diamddiffynedd y preswylwyr, efallai y bydd angen mesurau atal tân eraill.

| Tai Amlfeddiannaeth math Eiddo Un Ystafell heb fod yn fwy na dau lawr | |
|--|---|
| Systemau canfod tân a larwm tân | <ul style="list-style-type: none">• Safon Brydeinig 5839 Rhan 6: Gradd D, LD2 - larymau mwg cydgysylltiol yn yr holl ofodau cylchrediad, ystafelloedd unigol ac ystafelloedd cymunedol (a seler) a larwm gwres yn yr holl geginau.• Mae'n rhaid cysylltu cyflenwad trydan unrhyw system canfod tân neu larwm gyda chyflenwad y landlord a NI ddylai weithredu drwy fesurydd cerdyn neu arian neu ddyfais debyg. |
| Llwybrau dianc | <p>Drysau Tân / Llwybrau Dianc</p> <ul style="list-style-type: none">• Llwybr dianc 30 wedi'i ddiogelu gyda drysau tân FD30S ar holl ystafelloedd unigol ac ystafelloedd cymunedol. (Mae'n rhaid darparu drws tân FD30S yn y fynedfa i'r gegin (yn amodol ar y lleoliad)) <p>NEU mewn amgylchiadau penodol efallai y bydd y canlynol yn ddatrysiad arall:</p> <ul style="list-style-type: none">• Rhaid gosod drysau cadarn, tynn a ffenestri dianc yn yr holl ystafelloedd gwely ac ystafelloedd cymunedol mewn Tai Amlfeddiannaeth risg arferol (Rhaid gosod drws tân FD30S yn y fynedfa i'r gegin (yn amodol ar leoliad)) <p>Sylwer pan fydd risg uwch na'r arferol yn bodoli mae'n rhaid cael llwybr dianc 30 munud gyda drysau tân FD30S ar yr holl ystafelloedd sy'n agor i'r llwybrau dianc.</p> <ul style="list-style-type: none">• Ni ddylai'r pellter fod yn ormodol – ystyrir fod 9 metr yn uchafswm pellter |

| Tai Amlfeddiannaeth math Eiddo Un Ystafell heb fod yn fwy na dau lawr | |
|--|--|
| | <p>derbyniol o ddrws gadael ystafell i'r man diogel agosaf.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ni ddylai'r llwybr dianc o ystafell gynnwys teithio drwy ystafell ychwanegol. Pan fo'n anochel, mae'n rhaid defnyddio ffenestri dianc a rheolyddion diogelwch tân eraill. • Mae'n rhaid gallu agor y cloeon allanfa derfynol yr adeilad o'r tu mewn heb orfod defnyddio allwedd. • Argymhellir yn gryf y dylai'r drws allanfa ar gyfer pob uned o lety agor o'r tu mewn heb orfod defnyddio allwedd y gellir ei dynnu o'r clo. |
| Ffenestri Dianc | <ul style="list-style-type: none"> • Pan fydd angen ffenestri dianc mae'n rhaid cael ardal ffenestr sy'n agor heb rwstr sydd o leiaf 0.33m² gyda'r lled a'r uchder yn isafswm o 450mm. • Ni ddylai gwaelod ardal ffenestr sy'n agor (lefel silff ffenestr) fod yn fwy na 1100mm, a dim llai na 800mm uwch lefel y llawr. Mae ffenestri'n ddull diogel o ddianc lle bo'r cwmpiad o'r ffenestr i lefel y ddaear yn un llawr yn unig (heb fod yn fwy na 4.5m o lefel y llawr cyntaf i lefel y ddaear tu allan). Mae'n rhaid i'r llawr daear o dan y ffenestri fod yn wastad a heb beryglon. • Ni ddylid gosod y ffenestri mewn ystafelloedd tu ôl i ddrws y gellir ei gloi, ac mae'n rhaid iddynt arwain i fan o ddiogelwch, ymhell o'r adeilad. • Rhaid i bob ffenestr gael eu gosod yn unol â gofynion y Rheoliadau Adeiladu cyfredol. |
| Gwahaniad Tân | <ul style="list-style-type: none"> • Gwahaniad o 30 munud i'r waliau/to rhwng unedau o lety. • Gwahaniad 30 munud i'r seler / islawr (gan gynnwys y drws). |
| Goleuo llwybrau dianc | <ul style="list-style-type: none"> • Mae angen goleuadau dianc mewn argyfwng os yw'r llwybr yn hir neu'n gymhleth neu le nad oes golau benthyg effeithiol. • Pan fydd angen golau argyfwng, mae'n rhaid ei ddarparu'n unol â Rhan 1 BS 5266 cyfredol ar gyfer y llwybr dianc. Mae golau llwybr argyfwng yn hanfodol. Mae angen tystysgrif prawf blynyddol. • Mae'n rhaid i'r peiriannydd sy'n dylunio/gosod y goleuadau benderfynu lle i osod y goleuadau. • Mae'n rhaid cysylltu cyflenwad trydan unrhyw system goleuo mewn argyfwng gyda chyflenwad y landlord a ni ddylai weithredu drwy fesurydd cerdyn neu arian neu ddyfais debyg. |
| Offer Ymladd Tân | <ul style="list-style-type: none"> • Efallai y bydd angen diffoddwr tân amlbwrpas AFFF ewyn 6 litr neu 1.5kg powdr sych ar bob llawr y llwybr dianc (yn amodol ar asesiad risg o dan Orchymyn Diogelwch Tân). • Rhaid darparu blanced dân BS 6575 ym mhob cegin. Rhaid gosod y flanced ar y wal 1.5m o uchder wrth ymyl drws allanfa oddi wrth y cyfleusterau coginio. |
| Arwyddion a rhybuddion diogelwch tân | <ul style="list-style-type: none"> • Gosod arwyddion ar hyd y llwybr dianc os yw'r llwybr yn gymhleth |
| Gorffeniadau arwynebau a gorchuddion llawr | <ul style="list-style-type: none"> • Mae'n rhaid i'r llwybr dianc fod yn glir o unrhyw rwystrau a defnyddiau hylog. • Mae'n rhaid i waliau, to a llawr holl rannau o'r llwybr dianc beidio â chynnwys deunyddiau sy'n hynod fflamadwy e.e. teils polystyren neu bapur wal ffloc trwm. |

| Tŷ Amlfeddiannaeth math eiddo un ystafell gyda 3 neu 4 llawr | |
|---|---|
| Systemau canfod tân a larwm tân | <ul style="list-style-type: none"> • Safon Brydeinig 5839 Rhan 6: Gradd A, LD2 - canfodydd tân cydgyssylltiol yn yr holl ardaloedd cylchrediad, ystafelloedd unigol a'r selerau, a chanfodydd gwres yn yr holl geginau sydd wedi'u cysylltu â phanel rheoli er mwyn rhoi gwybodaeth ynglŷn â lleoliad y tân neu nam, all ddatblygu, • Mae'n rhaid i'r panel rheoli gydymffurfio â Safon Brydeinig 5839 Rhan 4 ac wedi'i osod yn agos at fynedfa arferol yr annedd. • Rhaid i'r system gynnwys pwyntiau galw â llaw, a ddylai gael eu lleoli ar bob lefel ac ar allanfeydd terfynol. • Rhaid i signal y larwm gyflawni lefelau sŵn o: ddim llai na 65dB (A) ym mhob rhan gyraeddadwy o'r adeilad a ddim llai na 75dB (A) ar ben bob gwely pan fydd y drysau wedi cau. • Mae'n rhaid cysylltu cyflenwad trydan unrhyw system canfod tân neu larwm gyda chyflenwad y landlord a ni ddylai weithredu drwy fesurydd cerdyn neu arian neu ddyfais debyg. |
| Llwybrau dianc | <ul style="list-style-type: none"> • Llwybr 30 munud wedi'i ddiogelu gyda drysau tân FD30S ar yr holl ddrysau sydd â mynediad at y llwybrau dianc. • Mae'n rhaid darparu drws tân FD30S yn y fynedfa i'r gegin (yn amodol ar y lleoliad) • Ni ddylai'r pellter fod yn ormodol – ystyrir fod 9 metr yn uchafswm pellter derbyniol o ddrws gadael ystafell i'r man diogel agosaf. • Ni ddylai'r llwybr dianc o ystafell gynnwys teithio drwy ystafell ychwanegol. • Mae'n rhaid gallu agor y cloeon allanfa derfynol yr adeilad o'r tu mewn heb orfod defnyddio allwedd. • Argymhellir yn gryf y dylai'r drws allanfa ar gyfer pob uned o lety agor o'r tu mewn heb orfod defnyddio allwedd y gellir ei dynnu o'r clo. |
| Ffenestri Dianc | <ul style="list-style-type: none"> • Pan fydd angen ffenestri dianc mae'n rhaid cael ardal ffenestr sy'n agor heb rwystr sydd o leiaf 0.33m² gyda'r lled a'r uchder yn isafswm o 450mm. • Ni ddylai gwaelod ardal ffenestr sy'n agor (lefel silff ffenestr) fod yn fwy na 1100mm, a dim llai na 800mm uwch lefel y llawr. Mae ffenestri'n ddull diogel o ddianc lle bo'r cwmpiad o'r ffenestr i lefel y ddaear yn un llawr yn unig (heb fod yn fwy na 4.5m o lefel y llawr cyntaf i lefel y ddaear tu allan). Mae'n rhaid i'r llawr daear o dan y ffenestri fod yn wastad a heb beryglon. • Ni ddylid gosod y ffenestri mewn ystafelloedd tu ôl i ddrws y gellir ei gloi, ac mae'n rhaid iddynt arwain i fan o ddiogelwch, ymhell o'r adeilad. • Rhaid i bob ffenestr gael eu gosod yn unol â gofynion y Rheoliadau Adeiladu cyfredol. |
| Gwahaniad Tân | <ul style="list-style-type: none"> • Gwahaniad o 30 munud i'r waliau/to rhwng unedau o lety. • Gwahaniad 30 munud i'r seler / islawr (gan gynnwys y drws). |
| Goleuo llwybrau dianc | <ul style="list-style-type: none"> • Mae angen goleuadau dianc mewn argyfwng os yw'r llwybr yn hir neu'n gymhleth neu le nad oes golau benthyg effeithiol. • Pan fydd angen golau argyfwng, mae'n rhaid ei ddarparu'n unol â Rhan 1 BS 5266 cyfredol ar gyfer y llwybr dianc. Mae golau llwybr |

| Tŷ Amlfeddiannaeth math eiddo un ystafell gyda 3 neu 4 llawr | |
|---|---|
| | <p>argyfwng yn hanfodol. Mae angen tystysgrif prawf blynyddol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'n rhaid i'r peiriannydd sy'n dylunio/gosod y goleuadau benderfynu lle i osod y goleuadau. • Mae'n rhaid cysylltu cyflenwad trydan unrhyw system goleuo mewn argyfwng gyda chyflenwad y landlord a ni ddylai weithredu drwy fesurydd cerdyn neu arian neu ddyfais debyg. |
| Offer Ymladd Tân | <ul style="list-style-type: none"> • Efallai y bydd angen diffoddwr tân amlbwrpas AFFF ewyn 6 litr neu 1.5kg powdr sych ar bob llawr y llwybr dianc (yn amodol ar asesiad risg o dan Orchymyn Diogelwch Tân). • Rhaid darparu blanced dân BS 6575 ym mhob cegin. Rhaid gosod y flanced ar y wal 1.5m o uchder wrth ymyl drws allanfa oddi wrth y cyfleusterau coginio. |
| Arwyddion a rhybuddion diogelwch tân | <ul style="list-style-type: none"> • Arwydd allanfa terfynol a gosod arwyddion ar hyd y llwybr dianc os yw'r llwybr yn gymhleth |
| Gorffeniadau arwynebau a gorchuddion llawr | <ul style="list-style-type: none"> • Mae'n rhaid i'r llwybr dianc fod yn glir o unrhyw rwystrau a defnyddiau hylosg. • Mae'n rhaid i waliau, to a llawr holl rannau o'r llwybr dianc beidio â chynnwys deunyddiau sy'n hynod fflamadwy e.e. teils polystyren neu bapur wal ffloc trwm. |

| Nodiadau Diogelwch Tân Ychwanegol | |
|--|--|
| Adeiladau mawr a/neu rhai gyda defnydd masnachol a phreswyl cymysg | <ul style="list-style-type: none"> • Mewn adeiladau mawr neu lle mae'r adeilad yn cynnwys defnyddiau gwahanol (er enghraifft, llety preswyl ger neu uwchben defnydd masnachol ar wahân) yna efallai y bydd angen mesurau ychwanegol. |
| Systemau Chwistrellu | <ul style="list-style-type: none"> • Efallai y gellir llacio rhai gofynion penodol ar gyfer rhagofalon tân os oes system chwistrellu wedi'i osod ac wedi'i ddylunio i'r Safon Brydeinig. |
| Ffabrigau | <ul style="list-style-type: none"> • Mae'n rhaid i'r holl ffabrigau meddal sy'n cael eu darparu gan y landlord i'r tenantiaid gydymffurfio â Rheoliadau Dodrefn a Ffabrigau (Diogelwch) (Tân) 1988 (fel y'i diwygiwyd). Mae'n rhaid labelu'r holl ddodrefn i ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r profion hyn. |
| Gwybodaeth a Hyfforddiant | <ul style="list-style-type: none"> • Mae'n rhaid i bob preswlydd dderbyn cyngor penodol ar gyfer atal tân a diogelwch tân yn y cartref. • Rhaid rhoi hyfforddiant ynglŷn â defnyddio offer ymladd tân. • Mae'n rhaid dylunio cynllun dianc rhag tân ar gyfer yr holl breswylwyr, fel os oes tân, eu bod yn ymwybodol o sut i adael yr eiddo'n gyflym ac yn ddiogel. Mae'n rhaid darparu hyn ar ddechrau pob tenantiaeth newydd a'i adolygu gydag amser. |
| Mesuryddion Nwy a /neu drydan | <ul style="list-style-type: none"> • Ni ddylid gosod mesuryddion nwy neu drydan a /neu fyrddau dosbarthu yn y llwybrau dianc. Fodd bynnag, efallai y gellir llacio'r rheoliad hwn os yw'r mesurydd nwy wedi'i osod yn unol â rheoliadau diogelwch nwy a bod unrhyw fesurydd trydan wedi'i osod a'i leoli yn unol â rheoliadau Sefydliad y Peirianwyr Trydanol |

Nodiadau Diogelwch Tân Ychwanegol

cyfredol. Mae'n cael ei ystyried fel arfer da i amgáu offer o'r fath mewn offer sy'n wrth-dân.

- Yn ddelfrydol, dylid darparu mesuryddion nwy a thrydan ar wahân ar gyfer pob fflat un ystafell.

Mae Cyngor Cyngor Sir Y Fflint yn cydnabod nad yw'r holl adeiladau'r un fath ac efallai y bydd datrysiadau eraill yn dderbyniol neu'n hanfodol mewn amgylchiadau penodol.

Mae'r ddogfen uchod yn cyfeirio at ddeddfwriaeth a safonau penodol. Bydd deddfwriaethau a safonau eraill heblaw am y rhai sydd wedi'u dyfynnu uchod hefyd yn berthnasol. Dylid derbyn cyngor cyfreithiol annibynnol a /neu ymgynghori gyda sefydliadau allanol cymeradwy lle bo'n briodol.

DIWEDD